Adoration of the Kings (1564) gan Pieter Breugel

Ystabl dlawd … Mair a Joseff … a'r baban Iesu. Ond mae'r lle yn llawn o bobl – y rhan fwyaf ohonynt yn filwyr; milwyr ac arfau yn gwasgu o gwmpas y bychan. Mor fychan yw Iesu, pawb yn fawr o'i gwmpas ac yntau'n fychan bach, noeth a diniwed, yn chwilio am gysur a thwrio am ddiogelwch ym mreichiau'i fam.

Mae cysgod y groes ar y llun, mae'r gwr doeth sydd ar ei liniau yn cyflwyno myrr, sydd yn ymwneud â marw a chladdu ac mae'r bychan yn arswydo rhagddo. Pwy yw'r ddau frenin yn penlinio? Brenin Ffrainc yw'r un sy'n penlinio yn union o flaen Mair, a brenin Sbaen, yw'r llall. *"The powers that be*" yma yn yr ystabl dlawd; hawdd meddwl am ostyngeiddrwydd y brenhinoedd hyn, yma'n plygu i addoli Brenin y brenhinoedd, ond nid yw pethau mor hawdd â hynny! Hunan-les gwleidyddol ddaeth ar ddau yma i'r stabl, meddai Breugel wrthym, wrth benlinio mae un yn edrych i lawr ar y llall, fel petai yn edrych os yw'r rhodd sydd ganddo yn well na rhodd y llall. I'r ochr mae'r brenin croenddu. Mae hwn yn dawel, wedi ei wthio i'r ymylon.

Nid yw'r bobl yn y llun yn canolbwyntio ar beth sydd yn mynd ymlaen. Mae nhw'n edrych ar anrhegion y brenhinoedd, mae nhw'n edrych o'u cwmpas; hyd yn oed Joseff, y tu ôl i Mair, ym mhell rhywsut wrth i rywun sibrwd rhywbeth yn ei glust. Mae un o'r dyrfa sydd wedi ymgynnull o weld y sioe ryfedd yma yn gwisgo sbectol. Pwysig? Ydyw … yn ogystal ar ffaith fod pawb bron yn y llun yn edrych ac yn meddwl am rywbeth arall ond Iesu, dyma ffordd Breugel o ddweud rhywbeth am bobl - ein bod ni weithiau ddim yn gweld yr hyn sydd wir yn bwysig.

Nid dymunol a 'neis' yr olygfa hon - ond mae rhyfeddod y geni yn amlwg. I ganol hyn i gyd, meddai Breugel, i ganol y genfigen a'r cynnwrf a'r gynnen daeth Duwdod mewn baban i'r byd.

Daeth brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd

Er symud ein penyd a'n pwn.

Tybed a ydym ni rhywsut, fel y bobl yn y llun, yn edrych ond ddim yn gweld, yn gweld y bychan hwn ond heb weld nad Duw sy'n bodloni ar ddweud y drefn wrthym o bell, ein barnu oddi ar Ei uchel sedd, sydd gennym, ond Duw sydd o'i gariad mawr wedi dod i'n plith, i rannu ei gyfrinach a ni.